# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyllid

Lleoliad: **Hybrid - Ystafell Bwyllgora 4 Tŷ Hywel a fideogynadledda drwy Zoom**

Dyddiad: Dydd Mercher, 25 Medi 2024

Amser: 09.30 - 12.20

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn: http://senedd.tv/cy/14095

# Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau o'r Senedd: | Peredur Owen Griffiths AS (Cadeirydd)<br>Peter Fox AS<br>Mike Hedges AS<br>Rhianon Passmore AS |
| Tystion: | Thomas Nicholls, Prif Economegydd, Llywodraeth Cymru<br>Julian Revell, Pennaeth Dadansoddi Cyllidol, Llywodraeth Cymru<br>Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg<br>Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr Trysorlys, Llywodraeth Cymru<br>Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran y Gyllideb a Busnes yLlywodraeth, Llywodraeth Cymru<br>Dr Rhys Ap Gwilym, Uwch Darlithydd mewn Economeg, Prifysgol Bangor<br>Dr Edward Jones, Uwch Darlithydd mewn Economeg, Prifysgol Bangor |
| Staff y Pwyllgor: | Owain Roberts (Clerc) |

Senedd Cymru
Welsh Parliament

| | |
|---|---|
| | Georgina Owen (Ail Glerc)<br>Leanne Hatcher (Ail Glerc)<br>Mike Lewis (Dirprwy Glerc)<br>Martin Jennings (Ymchwilydd)<br>Owen Holzinger (Ymchwilydd)<br>Christian Tipples (Ymchwilydd)<br>Ben Harris (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## Cofrestru

## Rhag-gyfarfod preifat

## 1 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 – Craffu cyn y Gyllideb: Y Prif Economegydd

1.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio dechnegol cyn y Gyllideb gan Thomas Nicholls, Prif Economegydd, Llywodraeth Cymru; a Julian Revell, Pennaeth Dadansoddi Cyllid, Llywodraeth Cymru.

1.2 Cytunodd y Prif Economegydd i ddarparu nodyn i'r Pwyllgor ar y canlynol:

- Data Cynnyrch Mewnwladol Crynswth (neu *GDP*) blynyddol ar gyfer Cymru,
- Data cynhyrchiant fesul sector ar gyfer Cymru a'r DU.

## Egwyl

## Cyhoeddus

## 2 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

2.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i gyfarfod y Pwyllgor Cyllid.

## 3 Papur(au) i'w nodi

3.1 Nododd y Pwyllgor y papurau.

### 3.1 PTN 1 – Llythyr oddi wrth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, y Cyfansoddiad a Swyddfa'r Cabinet: Cyllideb Atodol Gyntaf Llywodraeth Cymru 2024-25 – 18 Medi 2024

## 4 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 – Craffu cyn y Gyllideb: Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg

4.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth mewn perthynas â chraffu cyn y gyllideb gan Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg, Llywodraeth Cymru; Andrew Jeffreys, Cyfarwyddwr y Trysorlys, Llywodraeth Cymru; ac Emma Watkins, Dirprwy Gyfarwyddwr, Busnes y Gyllideb a'r Llywodraeth, Llywodraeth Cymru.

4.2 Cytunodd yr Ysgrifennydd Cabinet i ddarparu'r canlynol:

- Diweddariad ar gyfarfodydd y dyfodol o fewn haen uchaf y Cyllid: Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol (F:ISC).
- Rhagor o wybodaeth am unrhyw waith modelu neu astudiaethau sy'n ymwneud ag effaith bosibl codi treth incwm a/neu gynyddu nifer y bandiau treth incwm, ar symudiadau trawsffiniol unigolion a swm y refeniw treth incwm a dderbynnir. Yn benodol, unrhyw ddiweddariad ar y gwaith sy'n cael ei wneud gyda Llywodraeth yr Alban a CThEF mewn perthynas ag ymchwil hydredol a wneir gan CThEF ar ymddygiad trethdalwyr, yn dilyn gweithredu cyfraddau treth gwahanol yn yr Alban.

4.3 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at y Swyddfa Ystadegau Gwladol ynghylch cyhoeddi Data Twf Chwarterol penodol i Gymru.

## 5 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod hwn.

5.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 6 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 – Craffu cyn y Gyllideb: Academyddion o Brifysgol Bangor

6.1 Cafodd y Pwyllgor sesiwn friffio technegol cyn y Gyllideb gan Dr Rhys Ap Gwilym, Uwch Ddarlithydd mewn Economeg, Prifysgol Bangor; a Dr Edward Jones, Uwch Ddarlithydd mewn Economeg, Prifysgol Bangor.

## 7 Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2025-26 – Craffu cyn y Gyllideb: Trafod y dystiolaeth

7.1 Trafododd y Pwyllgor y dystiolaeth a ddaeth i law

## 8 Goruchwylio Archwilio Cymru: Cod ymarfer sy'n llywodraethu'r berthynas rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru

8.1 Cymeradwyodd y Pwyllgor y Cod Ymarfer Cydberthynas diwygiedig rhwng Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 18.10(ix).

## 9 Cysylltiadau Cyllidol Rhynglywodraethol: Trafod yr adroddiad drafft

9.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft a chytunwyd arno gyda mân newidiadau.